

2021 Rhif (Cy.)

2021 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Rhaeadr Gwy, Powys) (Gwahardd
Cerbydau a Beicwyr Dros Dro)
2021

The A470 Trunk Road (Rhayader,
Powys) (Temporary Prohibition of
Vehicles & Cyclists) Order 2021

Gwnaed 6 Ebrill 2021
Yn dod i rym 13 Ebrill 2021

Made 6 April 2021
Coming into force 13 April 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Rhaeadr Gwy, Powys) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Ebrill 2021.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Rhayader, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles & Cyclists) Order 2021 and this Order comes into force on 13 April 2021.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

Interpretation

2. In this Order—

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; Section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 08:00 o’r gloch ar 13 Ebrill 2021 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw’r darn o gefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig yn Rhaeadr Gwy, Powys sy’n ymestyn o bwynt 5 metr i’r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd sy’n arwain at Ystad Bryn Gwy hyd at bwynt 15 metr i’r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r B4518 St Harmon Road.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o’r gefnffordd.

Cymhwys

5. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd yr arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

6 Ebrill 2021

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the length of the A470 Cardiff to Llangurig trunk road at Rhayader, Powys that extends from a point 5 metres north-west of the centre-point of its junction with the road leading to Bryn Gwy Estate to a point 15 metres south-east of the centre-point of its junction with the B4518 St Harmon Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 08:00 hours on 13 April 2021 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road.

Application

5. The prohibitions in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order is 12 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

6 April 2021

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470
(RHAADR GWY, POWYS) (GWAHARDD
CERBYDAU A BEICWYR DROS DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, yn Rhaeadr Gwy, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith) a phob beiciwr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A470 o'r enw South Street a North Street, Rhaeadr Gwy sy'n ymestyn o bwynt 5 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at Ystad Bryn Gwy hyd at bwynt 15 metr i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4518 St Harmon Road.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd yw mynd ar yr A470 tua'r de i Lanelwedd, yr A483 tua'r gogledd i'r Drenewydd drwy Landrindod a'r Groes, yr A489 tua'r gorllewin hyd at ei chyffordd â'r A470 yng Nghaersŵs a'r A470 tua'r de i Raeadr Gwy; i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de.

Dylai cerbydau ag ochrau uchel dros 14' sy'n teithio tua'r gogledd ddilyn y llwybr uchod, ond yn Llandrindod dylent fynd drwy Barc Menter Ddole Road, cymryd yr A4081 tua'r gorllewin i Lanllŷr, ymadael â'r A4081 a theithio tua'r gogledd drwy Lanllŷr yna dilyn Gravel Road a'r A44 tua'r dwyrain i ymuno â'r A483 yn y Groes a pharhau fel a nodir uchod; i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

Daw'r Gorchymyn hwn i rym am 08:00 o'r gloch ar 13 Ebrill 2021. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn weithredol o 08:00 o'r gloch ar y dyddiad hwnnw tan 17:00 o'r gloch ar 22 Ebrill 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod mewn grym. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

**THE A470 TRUNK ROAD (RHAYADER,
POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF
VEHICLES & CYCLISTS) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road at Rhayader, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the works) and cyclists from proceeding on the length of the A470 trunk road known as South Street and North Street, Rhayader that extends from a point 5 metres north-west of the centre-point of its junction with the road leading to Bryn Gwy Estate to a point 15 metres south-east of the centre-point of its junction with the B4518 St Harmon Road.

The alternative route for northbound traffic is via the southbound A470 to Lanelwedd, northbound A483 to Newtown via Llandrindod Wells and Crossgates, westbound A489 to its junction with the A470 at Caersws and southbound A470 to Rhayader: vice versa for southbound traffic.

Northbound high-sided vehicles over 14' should follow the above route but at Llandrindod Wells proceed through Ddole Road Enterprise Park, take the westbound A4081 to Llanyre, leave the A4081 and travel northbound through Llanyre then follow Gravel Road and the eastbound A44 to join the A483 at Crossgates and continue as above; vice versa for southbound vehicles.

The Order comes into force at 08:00 hours on 13 April 2021. The temporary prohibitions are expected to operate from 08:00 on that date until 17:00 hours on 22 April 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar
wefan Llywodraeth Cymru ar
<https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn
oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

A copy of the Order and Notice can be viewed on the
Welsh Government's website at
<https://gov.wales/road-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be
obtained from Orders Branch, Transport,
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff
CF10 3NQ.**



J SADDLER
Transport
Welsh Government